



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2005 Rhif 35 (Cy.2)

2005 No. 35 (W.2)

ADDYSG, CYMRU

EDUCATION, WALES

Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth
am Ddisgyblion Unigol) (Cymru)
(Diwygio) 2005

The Education (Information About
Individual Pupils) (Wales)
(Amendment) Regulations 2005

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) 2003, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir ddarparu gwybodaeth ragnodedig am y disgyblion sydd yn yr ysgol i'r awdurdod addysg lleol sy'n cynnal yr ysgol, a hynny ar gais ysgrifenedig yr awdurdod.

These Regulations amend the Education (Information About Individual Pupils) (Wales) Regulations 2003 which require governing bodies of maintained schools to provide the local education authority which maintains the school with prescribed information on pupils at the school on written request from the authority.

Mae rheoliad 2 yn diwygio Rheoliadau 2003 drwy:

Regulation 2 amends the 2003 Regulations by:

- ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir ddarparu gwybodaeth am ddisgyblion unigol i'r awdurdod addysg lleol sy'n ei chynnal, a hynny ar ffurf y gall peiriant ei phrosesu; ac
- ymestyn rhychwant yr wybodaeth y caiff awdurdodau addysg lleol ofyn amdani am ddisgyblion y chweched dosbarth.

- requiring that the governing body of a maintained school provides individual pupil information to the maintaining local education authority in machine readable format; and
- extending the range of information that local education authorities may request on sixth form pupils.

2005 Rhif 35 (Cy.2)**2005 No. 35 (W.2)****ADDYSG, CYMRU****EDUCATION, WALES****Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) (Diwygio) 2005****The Education (Information About Individual Pupils) (Wales) (Amendment) Regulations 2005***Wedi'u gwneud* 11 Ionawr 2005*Made* 11 January 2005*Yn dod i rym* 18 Ionawr 2005*Coming into force* 18 January 2005

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 537A(1) a (2), a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996(1) ac sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(2):

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 537A(1) and (2) and 569(4) and (5) of the Education Act 1996(1) and now vested in the National Assembly for Wales(2):

Enwi, cychwyn a chymhwyso**Name, commencement and application**

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) (Diwygio) 2005 a deuant i rym ar 18 Ionawr 2005.

1.-(1) These Regulations are called the Education (Information About Individual Pupils) (Wales) (Amendment) Regulations 2005 and come into force on 18 January 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

Diwygio Rheoliadau**Amendment of Regulations**

2.-(1) Diwygir Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) 2003(3) fel a ganlyn.

2.-(1) The Education (Information About Individual Pupils) (Wales) Regulations 2003(3) are amended as follows.

(2) Ar ddiwedd rheoliad 3, ychwaneger y geiriau ", a hynny ar ffurf y gall peiriant ei phrosesu".

(2) In regulation 3 add the words "in machine readable format" after the words "must provide to the authority".

(3) Yn Rhan 2 o'r Atodlen-

(3) In Part 2 of the Schedule -

(a) dileer y gair "a" ar ddiwedd paragraff 1(a);

(a) delete the word "and" at the end of paragraph 1(a);

(b) yn lle paragraff 1(b), rhodder-

(b) replace paragraph 1(b) with -

"(b)teitl pob gweithgaredd dysgu y mae'r disgybl yn ei astudio; ac

"(b)the title of each learning activity the pupil is studying; and

(1) 1996 p.56. Mewnosodwyd adran 537A gan Ddeddf Addysg 1997 (1997 p.44), adran 20, ac fe'i disodlwyd gan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (1998 p.31), adran 140(1) ac Atodlen 30, paragraffau 57 a 153. I gael ystyr "prescribed" a "regulations" gweler adran 579(1) o Ddeddf 1996.

(1) 1996 c.56. Section 537A was inserted by the Education Act 1997 (1997 c.44), section 20, and substituted by the School Standards and Framework Act 1998 (1998 c.31), section 140(1) and Schedule 30, paragraphs 57 and 153. For the meaning of "prescribed" and "regulations" see section 579(1) of the 1996 Act.

(2) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(2) See the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(3) O.S. 2003/3237 (Cy.317).

(3) S.I. 2003/3237 (W.317).

- (c) pa un a gafodd y disgybl ei sgrinio i ganfod unrhyw anghenion o ran sgiliau sylfaenol llythrennedd a rhifedd ar ddechrau ei raglen o weithgareddau dysgu yn y chweched dosbarth ac, os felly, pa un a oedd ei sgiliau sylfaenol mewn perthynas â llythrennedd a rhifedd-
- (i) heb eu hasesu oherwydd ni chanfyddwyd unrhyw anghenion sgiliau sylfaenol wrth i'r disgybl gael ei sgrinio; neu
- (ii) wedi'u hasesu, a nodwyd bod sgiliau sylfaenol y disgybl-
- (aa) yn is na'r lefel mynediad,
- (bb) ar lefel mynediad 1,
- (cc) ar lefel mynediad 2,
- (chch) ar lefel mynediad 3,
- (dd) ar lefel 1, neu
- (dddd) yn uwch na lefel 1; neu
- (iii) yn anhysbys neu gwrthododd y disgybl i gael ei asesu.";
- (c) ym mharagraff 2, ar ôl y geiriau "Mewn perthynas â", yn lle'r geiriau "cwrs neu weithgaredd dysgu arall", rhodder "gweithgaredd dysgu";
- (ch) dileer y gair "ac" ar ddiwedd paragraff 2(d); a
- (d) ar ôl paragraff 2(dd), rhodder y paragraff a ganlyn-
- "(e) pa un a yw'r disgybl yn parhau i astudio neu a yw wedi cwblhau neu wedi tynnu yn ôl o'r gweithgaredd dysgu; ac
- (f) os cwblhaodd neu os tynnodd y disgybl yn ôl o'r gweithgaredd dysgu, y dyddiad y cwblhaodd neu y tynnodd y disgybl yn ôl o'r gweithgaredd dysgu, a pha un a yw'r disgybl wedi dechrau astudio gweithgaredd dysgu newydd. "
- (c) whether the pupil was screened to identify any basic skills needs for literacy and numeracy at the beginning of their programme of learning activities in the sixth form and, if so, whether their basic skills in relation to each of literacy and numeracy were -
- (i) not assessed because no basic skills needs were identified when the pupil was screened; or
- (ii) assessed and their basic skills were identified as being -
- (aa) below entry level,
- (bb) entry level 1,
- (cc) entry level 2,
- (dd) entry level 3,
- (ee) level 1, or
- (ff) above level 1; or
- (iii) not known or the pupil refused to be assessed.";
- (c) in paragraph 2 delete the words "course or other" after the words "In relation to";
- (d) delete the word "and" at the end of paragraph 2(e); and
- (e) after paragraph 2(f) insert the following -
- "(g) whether the pupil is continuing to study or has completed or withdrawn from the learning activity; and
- (h) where the pupil has completed or withdrawn from the learning activity, the date upon which the pupil completed or withdrew from the learning activity and whether the pupil has begun to study a new learning activity."

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(1).

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(1).

11 Ionawr 2005

11 January 2005

D. Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

OFFERYNNAU STATUDOL

2005 Rhif 35 (Cy.2)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth
am Ddisgyblion Unigol) (Cymru)
(Diwygio) 2005

STATUTORY INSTRUMENTS

2005 No. 35 (W.2)

EDUCATION, WALES

The Education (Information About
Individual Pupils) (Wales)
(Amendment) Regulations 2005

© Hawlfraint y Goron 2005

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

£3.00


W191/1/05

ON

© Crown copyright 2005

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-091054-0



9 780110 910543